# CYFARFOD PWYLLGOR LLYWODRAETHU A DIOGELWCH DIGIDOL - PREIFAT

## COFNODION, PENDERFYNIADAU A CHAMAU GWEITHREDU I'W CYMRYD

15:45 – 16:30 | 2 Mai 2024 | MS Teams

| Yn Bresennol (Aelodau) | Blaenlythrennau | Teitl | Sefydliad |
|---|---|---|---|
| David Selway (Cadeirydd) | DS | Aelod Annibynnol, Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol | IGDC |
| Rowan Gardner | RG | Aelod Annibynnol, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol | IGDC |
| Marilyn Bryan-Jones | MBJ | Aelod Annibynnol | IGDC |
| Alistair Klaas Neill | AKN | Aelod Annibynnol | IGDC |

| Yn bresennol | Blaenlythrennau | Teitl | Sefydliad |
|---|---|---|---|
| Chris Darling | CD | Ysgrifennydd y Bwrdd | IGDC |
| Mark Edwards | ME | Prif Swyddog Diogelwch Gwybodaeth | IGDC |
| Rhidian Hurle | RH | Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol | IGDC |
| Julian Jones | JJ | Pennaeth Seiberddiogelwch Dros Dro | IGDC |
| Darren Lloyd | DL | Cyfarwyddwr Cyswllt Llywodraethu Gwybodaeth a Diogelwch Cleifion | IGDC |
| Sam Lloyd | SL | Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau | IGDC |
| Carwyn Lloyd-Jones | CLJ | Prif Swyddog Cwmwl | IGDC |
| Julie Robinson | JR | Cydlynydd Llywodraethu Corfforaethol (Ysgrifenyddiaeth) | IGDC |
| Laura Tolley | LT | Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol | IGDC |

| Ymddiheuriadau | Teitl | Sefydliad |
|---|---|---|

| |
|---|
| Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb |

| Acronymau | | | |
|---|---|---|---|
| AIA | Awdurdod Iechyd Arbennig | DG&S | Llywodraethu a Diogelwch Digidol |
| IGDC | Iechyd a Gofal Digidol Cymru | GIG | Gwasanaeth Iechyd Gwladol |
| IM | Aelod Annibynnol | CTCI | Cynllun Tymor Canolig Integredig |
| NDR | Adnoddau Data Cenedlaethol | SCG | Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth |
| RISP | Caffael y System Gwybodeg Radioleg | WASPI | Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru |
| NCSC | Y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol | | |

| Rhif yr Eitem | Eitem | Canlyniad | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|
| RHAN 1 — MATERION RHAGARWEINIOL | | | |
| 1.1 | Croeso a Chyflwyniadau<br><br>Croesawodd David Selway (DS), Aelod Annibynnol ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol bawb i'r sesiwn breifat ac estynnodd groeso cynnes i Mark Edwards, y Prif Swyddog Diogelwch Gwybodaeth newydd ei benodi. | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 1.2 | Ymddiheuriadau am Absenoldeb<br><br>Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau. | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 1.3 | Datganiadau o Fuddiannau<br><br>Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau i'w nodi. | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| RHAN 2 – AGENDA GYDSYNIO<br><br>Dosbarthwyd eitemau ar yr agenda gydsynio cyn y cyfarfod a nodwyd nad oedd y Cadeirydd wedi derbyn unrhyw sylwadau ymlaen llaw. | | | |
| 2.1 | Cofnodion y cyfarfod diwethaf<br><br>Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod diwethaf y pwyllgor a gynhaliwyd ar 01 Chwefror 2024 fel cofnod cywir.<br><br>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol:<br><br>GYMERADWYO cofnodion y cyfarfod diwethaf | Cymeradwywyd | Dim i'w nodi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.2 | Polisïau<br>2.2.1 Polisi Dosbarthu Gwybodaeth a;<br>2.2.2 Polisi Wrth Gefn<br><br>Holodd David Selway, Is-gadeirydd (DS) pwy oedd yn gyfrifol am ddiweddaru polisïau Cymru Gyfan. Cadarnhaodd Laura Tolley, Pennaeth Llywodraethu nad oedd un grŵp canolog yn gyfrifol am bolisïau Cymru Gyfan ond mae gan IGDC ddyddiadau adolygu (ar gylchred 3 blynedd) a bydd yn gofyn am ddiweddariadau rheolaidd a bydd yn parhau i gysylltu â Llywodraeth Cymru ar y mater hwn.<br><br>Ychwanegodd Darren Lloyd, Cyfarwyddwr Cyswllt Llywodraethu Gwybodaeth a Diogelwch Cleifion (DL) y bydd nifer o'r polisïau hyn yn cael eu diddymu ledled Cymru yn dilyn gweithredu'r Fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth.<br><br>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol:<br>CYMERADWYO'R ddau bolisi. | Cymeradwywyd | Dim i'w nodi |
| RHAN 3 - PRIF AGENDA | | | |
| 3.1 | Cofnod Gweithredu<br>Roedd un cam gweithredu preifat ar y cofnod a nodwyd ei fod ar y gweill gan nad oedd dogfen fformat newydd SBAR ar gael eto. Fodd bynnag dywedwyd wrth y Pwyllgor y dylid cau hon erbyn y cyfarfod nesaf.<br>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol:<br>NODI'R Cofnod Gweithredu. | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 3.2 | Adroddiad Sicrwydd Seiberddiogelwch<br>Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad a chawsant eu sicrhau gan y gweithgareddau a amlygwyd gan gynnwys:<br>• Gosod Patsys Diogelwch<br>• Efelychiad gwe-rwydo<br>• Amnewid SEIM<br>• Tor Diogelwch<br>• Digwyddiadau Seiber<br><br>Amlinellwyd risgiau DATIX<br>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol: | Trafodwyd | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | DRAFOD yr Adroddiad Sicrwydd Seiberddiogelwch er SICRWYDD | | |
| 3.3 | Y Gofrestr Risg Gorfforaethol<br><br>Nododd Chris Darling, Ysgrifennydd y Bwrdd (CD) fod 16 o risgiau ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol ar hyn o bryd, yr oedd 9 ohonynt i'w hystyried gan y Pwyllgor hwn. Roedd 4 ohonynt yn cael eu hystyried yn rhai preifat a byddent yn destun trafodaeth. Nid oedd unrhyw newidiadau i'r risgiau preifat a neilltuwyd i'r Pwyllgor hwn ers y cyfarfod diwethaf ym mis Chwefror. Cadarnhaodd CD fod y risgiau wedi'u hamlinellu yn yr eitem agenda flaenorol ond ychwanegodd fod sesiwn Datblygu'r Bwrdd yn ddiweddar wedi nodi bod y bygythiadau seiber cenedlaethol yn parhau ac yn debygol o gynyddu.<br><br>Rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor fod ystadegau seiber yn cael eu cyflwyno i gyfarfodydd y Cyd-Dîm Gweithredol i atgyfnerthu pwysigrwydd Seiberddiogelwch<br><br>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol:<br><br>TRAFOD y Gofrestr Risg Gorfforaethol | Trafodwyd | Dim i'w nodi |
| 3.4 | Adrodd a Mynediad NIIAS<br><br>Rhoddodd Darren Lloyd, Cyfarwyddwr Cyswllt Llywodraethu Gwybodaeth a Diogelwch Cleifion, ddiweddariad llafar ar Adrodd a Mynediad NIIAS:-<br><br>• Cynnydd NIIAS – mudo o sylfaen lletya ar safle i sail lletya cwmwl.<br>• Roedd cyfluniad lletya cwmwl Google ar gyfer NIIAS wedi bod yn gymhleth gan fod hwn yn ddull cymharol newydd.<br>• Roedd y gwasanaeth bellach wedi sicrhau cysylltiad o un pen i'r llall rhwng y cyflenwr a rhwydwaith IGDC. Roedd cysylltedd cofnod y Cais mewn cyfnod profi datblygedig.<br>• Roedd holl ddefnyddwyr NIIAS bellach wedi cael y cyfle i gael mynediad at y cwmwl NIIAS ac adborth ar eu profiad. Mae'r data sy'n cael ei symud i NIIAS ar hyn o bryd hyd at fis Mai 2023.<br>• Roedd materion ariannu bellach wedi'u datrys a alluogodd y tîm i edrych y tu hwnt i gontract 2026 ar gyfer caffael a gallent symud ymlaen.<br><br>Cadarnhaodd DL fod heriau i'w hwynebu gan y bydd cyfansoddiad y gofynion diwygiedig ar gyfer yr NIIAS yn cynnwys adnoddau technegol helaeth, yn fewnol ac yn allanol, ond roedd yn gyflawniad mawr i drosglwyddo system NIIAS i'r cwmwl.<br><br>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch | Nodwyd | Dim i'w nodi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Digidol:<br>NODI'R diweddariad llafar ar Adrodd a Mynediad NIIAS. | | |
| RHAN 4 – MATERION I GLOI | | | |
| 4.1 | Unrhyw Faterion Brys Eraill<br>Nid oedd unrhyw faterion arall. | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 4.2 | Eitemau ar gyfer Adroddiad Crynhoi Cynnydd y Cadeirydd i'r Bwrdd<br>Cytunodd y Pwyllgor nad oedd unrhyw Eitemau i'w cynnwys yn Adroddiad Crynhoi Cynnydd y Cadeirydd ar gyfer Bwrdd SHA ym mis Mai. | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 4.3 | Dyddiad y cyfarfod nesaf:<br>Cadarnhawyd dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol ar 15 Awst am 2024 am 1.00pm. | Nodwyd | Dim i'w nodi |

DRAFT